ATODLEN 3

# RHAN 3

## Diwygiadau i is-ddeddfwriaeth sydd wedi ei datgymhwyso o ran Cymru

### Rheoliadau Plant (Llety Diogel) 1991

**197.** Mae Rheoliadau Plant (Llety Diogel) 1991(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**198.** Yn lle rheoliad 1A rhodder—

"**1A.**—(1) These regulations do not apply in relation to—

(a) the provider of a children's home in Wales;

(b) an application to court for authority to place a child in secure accommodation in Wales.

(2) Regulations 4, 14, 15 and 16 do not apply to a local authority in Wales in respect of a placement in secure accommodation under section 25 of the Act.

(3) Where paragraphs (1) and (2) apply, refer to section 119 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 and the Children (Secure Accommodation) (Wales) Regulations 2015."

**199.** Yn rheoliad 8, ar ôl "local authority" mewnosoder "or local authority in Wales".

**200.** Yn rheoliad 9, ar ôl "local authority" mewnosoder "or local authority in Wales".

**201.** Ym mharagraff (b) o reoliad 17, ar ôl "local authority" mewnosoder "or local authority in Wales".

### Rheoliadau'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Atgyfeirio Achosion a Adolygwyd) 2004

**202.** Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Atgyfeirio Achosion a Adolygwyd) 2004(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**203.**—(1) Mae rheoliad 3 (estyn swyddogaethau swyddogion) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer "and of the National Assembly for Wales".

(3) Yn y pennawd hepgorer "and Welsh family proceedings officers".

**204.**—(1) Mae rheoliad 4 (y modd y mae swyddogaethau swyddogion y gwasanaeth a swyddogion achosion teuluol Cymru i gael eu cyflawni) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer "or a Welsh family proceedings officer".

(3) Yn y pennawd hepgorer "and Welsh family proceedings officers".

**205.** Hepgorer rheoliad 5A (penodi swyddog achosion teuluol Cymru).

**206.** Yn rheoliad 6 (atgyfeirio achos yn amhriodol) hepgorer "or the Welsh family proceedings officer appointed under regulation 5A(1)".

(**1**) O.S. 1991/1505, a ddiwygiwyd o ran Cymru gan O.S. 1995/1398, O.S. 1996/692 ac O.S. 2002/808 (Cy. 89); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.
(**2**) O.S. 2004/2187, a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/605; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

**207.**—(1) Mae paragraff (1) o reoliad 7 (cychwyn achos) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer "or regulation 5A(2)".

(3) Hepgorer "or the Welsh family proceedings officer".

(4) Hepgorer "or the National Assembly for Wales".

**208.** Yn rheoliad 8 (setlo'r achos heb wrandawiad llys) hepgorer "or the Welsh family proceedings officer".

**209.**—(1) Mae rheoliad 9 (adrodd yn dilyn cwblhau'r achos) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1)—

(a) hepgorer "or the Welsh family proceedings officer";

(b) hepgorer "or regulation 5A(2)(a) to (d)".

(3) Ym mharagraff (2) ar ôl "time limits in regulation 5(3)" hepgorer ", 5A(3)".